*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Rhif adroddiad | **AC/2017/07/09** |
| Dyddiad | **10/07/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Halstead (01492 576210)** |
| Pwnc | **Datganiad Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dan delerau'r rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Awdurdod gynnal adolygiad, yn flynyddol, o effeithiolrwydd ei systemau Rheolaeth Fewnol. Mae archwiliad mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n ofynnol er mwyn ei gynnwys yn y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Panel Gweithredol ynglŷn â holl system y rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad yn cynnwys y datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar y gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017. I gefnogi'r adroddiad, mae Atodiad A yn rhestru barn yr archwiliad a'r prif negeseuon mewn perthynas â'r aseiniadau a gyflawnwyd yn ystod 2016/17.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn dallu darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, ar sail y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth sydd gennym am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

5 Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n haeddu'r farn hon, ac nid oes unrhyw faterion sylweddol sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

6 Mae'r adroddiad yn darparu sicrwydd hefyd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus er mwyn galluogi'r Awdurdod I gael sicrwydd o'r farn hon.

## ARGYMHELLIAD

7 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol ac yn cymeradwyo ei gyfraniad i'r cynnwys tystiolaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17.

## CEFNDIR

### Rôl Archwilio Mewnol

8 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu, i'r rheolwyr, asesiad gwrthrychol ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:

- y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

9 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd er mwyn rheoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau

## GWYBODAETH

### Ffactorau sy'n Effeithio ar Hyd a Lled y Gwaith Archwilio Mewnol

10 Ymdrinnir â'r gwaith Archwilio Mewnol a gafodd ei wneud yn 2016/17 yn y *Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol* (Atodiad A). Yn ystod 2016/17, cafodd 45 o ddiwrnodau archwilio eu darparu o gymharu â dyraniad o 50 diwrnod a gynlluniwyd fel y nodwyd yn y cynllun archwilio strategol. Ni chynhaliwyd yr archwiliad ar Gynllun Pensiwn Addasedig Diffoddwyr Tân y System RDS yn ystod y flwyddyn; gan mai yn 2015 y rhoddwyd y Cynllun ar waith a gan fod yr archwiliad ar Bensiynau (Ansawdd Data) yn 2016/17 wedi adolygu agweddau ar weithrediad y Cynllun, cytunwyd â Phennaeth Cyllid yr Awdurdod mai bach oedd y risg i'r Awdurdod ac na fyddai llawer o fudd o ganlyniad i wneud gwaith pellach yn y maes hwn. Cytunwyd â'r Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd 5 diwrnod archwilio yn cael ei gario drosodd i 2017/18, gan gynyddu'r adnodd archwilio yn 2017/18 i 55 diwrnod.

11 Mae'r archwiliad Diogelwch Seiber a gynlluniwyd ar gyfer 2016/17 wrthi'n mynd rhagddo; roedd Uwch Archwilydd Conwy (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfnod o salwch tymor hir yn ystod Mawrth ac Ebrill 2017, ac arweiniodd hynny at oedi wrth gwblhau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliadau o Ddiogelwch Seiber yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2017.

## Y DATGANIAD O SICRWYDD

### Rhaglith

12 Mae'n ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r holl system Rheolaeth Fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall yr Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn holl system y rheolaeth fewnol.

13 Yr unig faterion a godir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddaeth i'n sylw wrth wneud ein gwaith archwilio mewnol, ac nid ydynt, o reidrwydd, yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac ychwaith o'r holl welliannau y gallai fod gofyn amdanynt.

### Sicrwydd Cyffredinol

14 Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi ei gynnal gan gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2013.

### Barn yr Archwiliad

15 Rwy'n fodlon fod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'r wybodaeth sydd gennym am y sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu yn ATAGC. Yn fy nhyb i, am y 12 mis a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2017, mae gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol ar gyfer rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

### Sicrwydd

16 Yn fy nhyb i, mae gan ATAGC brosesau rheoli digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli'r modd y mae'n cyflawni amcanion yr Awdurdod am y 12 mis hyd at Fawrth 31ain 2017. Er mwyn dod i'r farn hon, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffactorau a ganlyn:

- Mae Archwilio Mewnol yn cymryd camau dilynol cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol mewn perthynas â'r aseiniadau archwilio. Pwrpas yr adolygiad dilynol yw pennu pa mor brydlon ac effeithiol y gweithredir yr argymhellion a wnaed i'r rheolwyr. Mae proses yr adolygiad dilynol yn nodi bod y rheolwyr wedi gweithredu, neu wrthi'n gweithredu, yr holl argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau archwilio sy'n ymwneud â 2015/16.

- Yn Atodiad A, ceir rhestr yn rhoi barn yr archwiliad am ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheoli, mewn perthynas â'r holl aseiniadau archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr holl archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn eu hasesu fel rhai a oedd yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd.

17 Gellid defnyddio barn gyffredinol yr archwiliad wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**DADANSODDIAD O'R GWAITH A GYFLAWNWYD, A DIFFINIAD O ARGYMHELLION A BARN YR ARCHWILIAD**

18 Mae'r rhestr yn Atodiad A yn nodi casgliadau a phrif negeseuon yr aseiniadau y mae'r Archwilio Mewnol wedi adrodd yn eu cylch yn ystod y flwyddyn. Mae'r drefn o gategoreiddio'r argymhellion yn sail i farn yr archwiliad mewn perthynas â phob archwiliad. Felly, mae crynodeb o'r farn a roddwyd ar gyfer pob archwiliad a wnaed ymhob blwyddyn ariannol yn sail i'r broses pan fo gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio a Chaffael gynnwys barn ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw rheolaeth fewnol amgylchedd yr Awdurdod yn gyffredinol, a hynny yn ei adroddiad blynyddol ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio.

**Graddio Categorïau Risg**

19 Mae argymhellion Archwilio wedi cael eu categoreiddio i adlewyrchu'r ffordd mae'r Awdurdod yn asesu ac yn mesur risg. Mae'r meini prawf risg safonol fel a ganlyn:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | >70% | Bron yn sicr | A | | | | | |
| | Digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y mwyafrif o amgylchiadau | 30-70% | Tebygol | B | | | | | |
| | Mae'n bosib i'r digwyddiad ddigwydd rhywbryd | 10-30% | Yn bosib | C | | | | | |
| | Digwyddiad yn annhebygol ac efallai y digwyddith rhywdro | 1-10% | Annhebygol | D | | | | | |
| | Digwyddiad prin ac efallai dim ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol | <1% | Prin | E | | | | | |
| | | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| | | | Perfformiad y Gwasanaeth | | Mân gamgymeriadau neu darfiadau | Rhywfaint o darfu ar weithgareddau/ cwsmeriaid | Tarfu ar weithgareddau/ cwsmeriaid craidd | Tarfu'n fawr ar weith-gareddau craidd. Wedi methu targedau allweddol | Methu cyflawni gweith-gareddau craidd. Peryglu nodau strategol |
| | | | Enw da | | Modd adennill hyder heb fawr o ymdrech na chost | Modd adennill hyder am gost fechan gyda'r dyraniad adnoddau o fewn y gyllideb | I adennill hyder, rhaid awdurdodi costau y tu hwnt i'r cyllidebau presennol | Modd adennill hyder gyda chost fawr a sylw rheolwyr | Drwg mawr i hyder ac adferiad yn amheus a chostus |
| | | | Cost Ariannol | (£) | <£50k | £50k - £350k | £350k - £1 m | £1 m - £5 m | >£5m |
| | | | EFFAITH | | | | | | |

| | **Difrifoldeb** | **Ymyrraeth gan Reolwyr** |
|---|---|---|
| | Mân | Canfyddiadau y mae'n hawdd i reolwyr llinell ymdrin â hwy. |
| | Cymedrol | Canfyddiadau sy'n nodi enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau sefydledig ond nad ydynt yn risg mawr i'r Awdurdod, ac y mae modd eu cadw ar lefel y gwasanaeth. |
| | Mawr | Canfyddiadau pwysig y mae angen i Brif Swyddogion eu datrys ac y mae angen i'r Panel Gweithredol gael gwybod amdanynt o bosibl. |
| | Critigol | Canfyddiadau sy'n sylfaenol i reoli risg yn y maes busnes, ac sy'n wendidau mewn rheolaeth y mae angen eu dwyn i sylw'r Panel Gweithredol ar unwaith. |

## Barn yr Archwiliad

20 Mae canlyniad pob archwiliad a'r gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a wnaed a'u graddfa risg. Mae'r broses hon yn sail i Farn yr Archwiliad, a chafodd y diffiniadau canlynol eu llunio er mwyn galluogi archwilwyr i wneud asesiadau priodol mewn perthynas â Barn yr Archwiliad sydd ar ddiwedd adroddiad pob archwiliad.

## DIFFINIADAU O'R GRADDFEYDD SICRWYDD

| LEFELAU SICRWYDD | RHEOLAETHAU | RISGIAU |
|---|---|---|
| **SICRWYDD UCHEL** | Mae rheolaethau allweddol yn bodoli i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i ddiogelu'r Awdurdod rhag risgiau mawr y mae modd eu rhagweld, ac maent yn cael yn dilyn yn gyson ac yn effeithiol. Dim camgymeriadau mawr na phwysig wedi eu canfod. | Angen camau blaenoriaeth isel, y mae modd eu rheoli'n hawdd. |
| **SICRWYDD BODDHAOL** | Mae rheolaethau allweddol yn bodoli i'w gwneud yn bosibl i gyflawni amcanion y gwasanaeth ac i liniaru rhag risgiau mawr y gellir eu rhagweld. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o anghysondeb wrth eu gweithredu, ac mae cyfleoedd o hyd i liniaru rhag risgiau posibl. | Rhai cyfleoedd ar gael o hyd i liniaru rhagor yn erbyn risgiau posibl.<br><br>Rhywfaint o risg o golledion, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| **SICRWYDD CYFYNGEDIG** | Mae rheolaethau yn bodoli, a chydymffurfir â hwy, i raddau amrywiol, ond mae bylchau yn y broses gan adael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Ni chyflawnir amcanion, neu cyflawnir hwy heb gael gwerth am arian. | Mae angen cyflwyno rhagor o reolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiad â'r rhai sy'n bodoli, a hynny er mwyn lleihau'r modd y mae'r Awdurdod yn agored i risgiau.<br>Risg uchel o golledion, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau allweddol yn annigonol, gydag o leiaf un mecanwaith critigol yn brin. Hefyd, mae angen gwella cydymffurfiad â'r rheolaethau presennol, a chanfuwyd camgymeriadau a hepgoriadau. | Nid oes rheolaethau allweddol yn bodoli, ac ni chyflawnir yr amcanion, neu cyflawnir hwy heb werth am arian.<br>Mae'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol iawn a allai arwain at golledion ariannol mawr, risg i enw da oherwydd embaras neu fethiant i gyflawni rhai o amcanion allweddol y gwasanaeth. |

### Gwendidau Cyffredin

21 Nid oes un ffactor cyffredin yn cysylltu'r gwendidau a nodwyd fel rhan o'n gwaith mewnol yn 2016/17, ac nid oes unrhyw faterion neu bryderon penodol sy'n berthnasol i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## MATERION ERAILL

### Amodau i Farn yr Archwiliad

22 Wrth roi barn yr archwiliad, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd rhesymol, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr ac eithrio'r rhai a nodwyd.

23 Nodir Amodau Barn yr Archwiliad ym mharagraffau 10 ac 11. Hefyd, wrth ddod i'r farn hon, rydym wedi ystyried:

- Canlyniadau pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2017;
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau o flynyddoedd blaenorol;
- A yw'r rheolwyr wedi peidio â derbyn argymhellion o gategori Uchel neu Ganolig, a risgiau canlyniadol hynny;
- Effeithiau unrhyw newidiadau perthnasol yn amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio;
- A oes unrhyw gyfyngiadau wedi eu gosod ar hyd a lled yr archwiliad mewnol ai peidio;
- Y cyfyngiadau o ran adnoddau a osodwyd ar yr Archwilio Mewnol, a'r rheini wedi ardaro ar allu'r Gwasanaeth i gyflawni anghenion llawn yr Awdurdod o ran archwilio mewnol;
- Pa gyfran o anghenion archwilio mewnol yr Awdurdod yr ymorolwyd amdanynt hyd yn hyn.

### Derbyn Argymhellion

24 Mae'r rheolwyr wedi derbyn 100% o'r argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y llynedd. Nid oes unrhyw gategorïau Critigol neu Fawr yr ydym ni'n eu hystyried yn rhai nad ydynt wedi cael sylw digonol gan y rheolwyr.

### Dibyniaeth a Roddir ar Waith Cyrff Sicrwydd Eraill

25 Wrth lunio'r adroddiad blynyddol a llunio ein barn flynyddol am y cyfnod, mae'r Archwilio Mewnol yn gosod rhywfaint o ddibyniaeth ar waith a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru, archwilwyr allanol yr Awdurdod, yn enwedig o ran y trefniadau datganiadau ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

**Materion y bernir eu bod yn berthnasol i'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol**

26 Yn seiliedig ar waith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod 2016/17, nid oes unrhyw rannau gwan arwyddocaol sy'n gofyn am sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17.

**Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol**

27 Ar ddechrau'r flwyddyn, mae Archwilio Mewnol yn defnyddio dull yn seiliedig ar risg wrth bennu anghenion yr Awdurdod o ran archwilio, ac mae'n defnyddio methodoleg yn seiliedig ar risg wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cael ei gyflawni'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2013.

28 Mae Archwilio Mewnol yn agored i adolygiad blynyddol gan yr Archwilwyr Allanol er mwyn pennu cydymffurfiaeth â'r safonau archwilio sydd i'w cael yn y Cod Ymarfer.

29 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1af Ebrill 2013 gan gyflwyno gofyniad am asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol y mae'n rhaid ei gynnal bob pum mlynedd o leiaf, a hynny gan adolygydd annibynnol cymwysedig o'r tu allan i'r sefydliad. Fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaeth – Archwilio a Thechnegol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal yr asesiad ym mis Tachwedd 2016. Mae'r Sefydliad Archwilwyr Mewnol yn awgrymu tri graddiad, sef 'Yn Cydymffurfio'n Gyffredinol', 'Yn Cydymffurfio'n Rhannol' a 'Nid yw'n Cydymffurfio'. Yn ôl barn gyffredinol yr aseswyr allanol, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol <u>yn cydymffurfio'n gyffredinol</u> â'r Safonau PSIAS a'r Cod Moeseg ymhob maes sylweddol, ac mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol.

30 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ansawdd mewnol yn rheolaidd gan aelodau profiadol o'r swyddogaeth archwilio mewnol, a hynny er mwyn arfarnu:

- cydymffurfiad â'r safonau trefniadaethol a phroffesiynol,
- ansawdd y gwaith archwilio,
- ansawdd yr oruchwyliaeth,
- cydymffurfiad â'r llawlyfr archwilio lleol,
- cyflawni dangosyddion perfformiad.

31 Mae'r adolygiad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2016/17 wedi dangos cydymffurfiad â'r safonau mewnol ac allanol.

**Rhaglenni Mewnol ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol**

32 Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilio Mewnol, mae nifer o fesurau ansawdd wedi cael eu sefydlu, yn cynnwys:

- Goruchwylio staff sy'n cynnal gwaith archwilio;
- Adolygiad wedi ei ddogfennu o'r holl ffeiliau o bapurau gwaith ac adroddiadau gan reolwyr;
- Arfarniad blynyddol o'r staff sy'n ymwneud ag archwilio, gan arwain at gynlluniau gweithredu ar gyfer hyfforddiant a datblygiad personol;
- Cynnal a chadw Llawlyfr Archwilio Mewnol yr Adain.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Amh. |
| Cyfreithiol | Amh. |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad o Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n gwybod pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol, na'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau sylweddol a ganfyddir gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

**Adain Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barn yr Archwiliad 2016/17**

| | **Maes Archwiliadwy** | **Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad** | **Critigol** | **Mawr** | **Cymedrol** | **Mân** | **Cyfan-swm** | **Cytun-wyd gan y Rheolwyr** | **Barn yr Archwiliad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Rheoli Presenoldeb** | Mae gan y Gwasanaeth bolisi rheoli presenoldeb sy'n glir ac yn cael ei gyfathrebu'n dda, a'r dyddiad cyhoeddi oedd Ebrill 2014 (SAPPO Adran 7 Gorchymyn 4). Daeth *Polisi Rheoli Presenoldeb* diwygiedig i rym ym mis Gorffennaf 2016, gan wneud nifer o ddiwygiadau i'r polisi gwreiddiol, yn bennaf oherwydd newidiadau yn y ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, canfuwyd nad yw'r Polisi wedi cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol eto.<br><br>Cadarnhawyd bod Adnoddau Dynol yn olrhain lefelau salwch ymhob rhan o'r Gwasanaeth; mae'n cael ei fonitro yn ôl salwch tymor byr a thymor hir, yn ôl grwpiau galwedigaethol, yn ôl achosion y salwch a'r gost yn gyffredinol. Mae adroddiadau absenoldeb salwch yn cael eu darparu i gyfarfodydd y Panel Rheoli Iechyd ac Ardaloedd bob 6 wythnos, ac mae adroddiadau Trosolwg yn cael eu llunio ar gyfer y Grŵp Gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth yn dechrau pob blwyddyn drwy osod amcangyfrifon / targedau ar gyfer absenoldebau salwch ar gyfer pob grŵp Galwedigaethol er mwyn gallu mesur a gwella perfformiad; dylai'r targed perfformiad a'r data gwirioneddol gael eu hadrodd i'r uwch reolwyr a'r Aelodau.<br><br>Cadarnhawyd mai'r sefyllfa o ran absenoldeb salwch tymor byr yw ei fod yn cael ei reoli'n gyffredinol yn unol â'r Polisi; mae Ystafell Reoli'r Gwasanaeth yn cael ei hysbysu'n brydlon am absenoldeb ac mae ffurflen Absenoldeb Salwch yn cael ei hanfon ar e-bost i Adnoddau Dynol a'r rheolwyr llinell, os bydd y gweithiwr yn dal yn absennol ar yr 8fed dydd, mae'r gweithiwr wedi cael tystysgrif feddygol gan ei Feddyg Teulu ac mae tystysgrifau meddygol yn rhedeg yn barhaus am holl gyfnod yr absenoldeb. Cafodd yr Ystafell Reoli wybod pryd roedd y gweithiwr yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith, cafodd *ffurflen ffit* ei llenwi'n brydlon a chafodd cyfweliad 'dychwelyd i'r gwaith' ei drefnu gan gofnodi'r canlyniadau ar ffurflen Hunan-ardystiad (Rhannau B ac C). Rhaid i'r holl waith papur am yr absenoldeb | 0 | 0 | 2 | 2 | 4 | 4 | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | salwch gyrraedd Adnoddau Dynol cyn pen 10 diwrnod, a chadarnhawyd bod Uwch Ymgynghorwyr AD yn monitro'r modd y mae tystysgrifau meddygol a ffurflenni hunan-ardystiad yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac maent yn atgoffa rheolwyr gwylfa i gyflwyno gwaith papur yn brydlon. Fodd bynnag, bu achos lle roedd tystysgrif feddygol wedi cyrraedd yn hwyr a bod oedi mawr, rhwng 10 diwrnod a 2 fis, cyn derbyn ffurflenni hunan-ardystiad gan Orsafoedd, a hynny yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd.<br>Mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu ar drothwy drwy gyfrifo presenoldeb gweithiwr drwy weithredu 'pwyntiau sbardun' penodol i reoli presenoldeb. Cydnabyddir bod amgylchiadau unigol yn cael eu cymryd i ystyriaeth, mae rhinweddau pob achos yn wahanol a gwneir addasiadau mewn achosion pan fo gweithiwr yn dod o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, canfuwyd achosion o beidio â chydymffurfio â'r polisi; fe wnaeth dau weithiwr gyrraedd 'pwynt sbardun 1' ac er bod AD wedi eu hatgoffa, nid oedd y Rheolwr Gwylfa cyfrifol wedi darparu unrhyw waith papur i gofnodi a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu. Hefyd, er bod gweithiwr wedi cyrraedd 'pwynt sbardun 4', nid oedd unrhyw waith papur ar ffeil i gofnodi'r cyfarfodydd a gynhaliwyd a beth oedd y canlyniadau. Ystyrir y byddai rheolwyr gwylfa'n elwa ar ragor o hyfforddiant ar ddefnyddio 'pwyntiau sbardun' i reoli absenoldeb salwch ac am yr angen i lenwi gwaith papur yn gywir a'u hanfon i AD yn brydlon.<br>Cadarnhawyd mai'r sefyllfa o ran absenoldeb tymor hir, sef pan fo gweithiwr yn absennol o'r gwaith am fwy na 28 diwrnod, oedd eu bod cael eu cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol, cafodd adroddiad Meddyg ei gyflwyno i AD yn brydlon, ac ystyrir bod yr achos wedi cael ei ystyried yn briodol gan y Panel Rheoli Iechyd.<br>Cadarnhawyd bod archwiliadau meddygol yn cael eu cynnal bob 3 blynedd ar rai dan 50 a phob blwyddyn ar rai dros 50 oed (mae'r polisi newydd ar Rheoli Presenoldeb wedi diwygio'r angen am archwiliadau meddygol blynyddol ar rai dros 60 oed); mae pentwr o apwyntiadau iechyd galwedigaethol yn weddill, sef rhai a oedd i fod i gael eu cynnal yn y 3 neu 4 mis diwethaf (yn bennaf oherwydd recriwtio i'r system RDS, archwiliadau meddygol asbestos a newidiadau i'r polisi archwiliadau meddygol bob 3 blynedd hyd at 60 oed). Fodd bynnag, mae'r Cynorthwyydd Rheoli Presenoldeb yn monitro'r sefyllfa ac yn | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu trefnu cyn diwedd y flwyddyn. Cadarnhawyd bod cofnod yn cael ei gadw o'r gweithwyr sy'n cael eu hasesu fel rhai *Anffit ar gyfer Dyletswydd* a chadarnhawyd bod yr achosion hyn yn cael eu trin yn briodol. Er mwyn sicrhau bod gweithwyr Gweithredol yn cadw at y safonau corfforol angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac effeithiol, mae'n ofynnol i bob gweithiwr sydd ag ymrwymiad gweithredol gael asesiadau iechyd a ffitrwydd rheolaidd, gan ddibynnu ar y math o swydd sydd ganddynt. Mae SAPPO Adran 7 Gorchymyn 34 *Gweithdrefn Iechyd a Ffitrwydd* yn darparu canllaw manwl ac mae'r Ymgynghorydd AD a Ffitrwydd yn cadw cofnodion cynhwysfawr o'r archwiliadau iechyd a ffitrwydd sy'n cael eu cynnal ac o'r archwiliadau sy'n hwyr.<br><br>Canfuwyd bod 6 gweithiwr wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod 2015/16; cafwyd barn ysgrifenedig ymarferwr meddygol cymwysedig ac annibynnol ymhob achos, a chymeradwywyd yr ymddeoliad gan y Panel Rheoli Iechyd. O ran gweithiwr a roddwyd ar ddyletswyddau wedi'u haddasu, cadarnhawyd mai yn ôl cyngor meddyg iechyd galwedigaethol yr oedd hynny, cafodd taflen wybodaeth dyletswyddau addasedig ac asesiad risg eu cwblhau, a chafodd yr achos ei adolygu gan y Panel Rheoli Iechyd. Cadarnhawyd bod gweithwyr nad ydynt wedi cael unrhyw absenoldeb mewn cyfnod o 12 mis yn cael 1 diwrnod o wyliau yn ychwanegol, ar yr amod fod cais yn cael ei wneud o fewn 3 mis i'r dyddiad cymwys; mae cofrestr yn cael ei chadw o'r ceisiadau a chanfuwyd bod 18 o geisiadau wedi cael eu gwrthod yn briodol yn 2015 oherwydd bod y gweithiwr wedi cael rhywfaint o absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. | | | | | | | |
| 4 | **Pensiynau (Ansawdd Data)** | Er bod yr archwiliad wedi darparu lefel Foddhaol o sicrwydd am ansawdd y data pensiynau diffoddwyr tân, ystyrir y byddai swyddogion y gyflogres yng Nghonwy yn elwa ar rywfaint o hyfforddiant ar bob un o'r tri chynllun pensiwn, sef FPS 1992, NFPS 2007 ac FPS 2015. Mae Pennaeth Cyllid wedi rhoi cyflwyniad hyfforddi i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ac mae wedi cynnig yr hyfforddiant i swyddogion y gyflogres, a byddai hyn yn darparu lefel o sicrwydd bod y cynlluniau'n cael eu rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth.<br><br>Cadarnhawyd bod dechreuwyr newydd yn cael canllawiau ar fuddion FPS 2015, ac maent yn cael eu cofrestru'n awtomatig yn y Cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth gyda'r dewis o 'Optio | 0 | 0 | 4 | 5 | 9 | 9 | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Allan' drwy roi gwybod yn ysgrifenedig i Bensiynau Dyfed. Fodd bynnag, canfuwyd bod 7 o Ddiffoddwyr Tân RDS a oedd wedi dechrau ar eu dyletswyddau yn Ebrill 2015 heb gael eu cofrestru'n awtomatig yn FPS 2015. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, rhaid i'r diffoddwyr tân hyn gael eu cofrestru er mwyn eu galluogi i benderfynu a ydynt am aros i mewn ynteu a ydynt am 'optio allan' o'r Cynllun. Cydnabyddir bod gwybodaeth ar gael ar wefan Pensiynau Dyfed ynglŷn â throsglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r Cynllun a thalu grantiau marwolaeth. Fodd bynnag, ystyrir y dylai Adnoddau Dynol roi pecyn gwybodaeth am bensiynau i ddechreuwyr newydd, sydd nid yn unig yn rhoi gwybodaeth am yr opsiwn i 'optio allan' ond hefyd am drosglwyddo buddion pensiwn blaenorol (*Ffurflen Datgan Buddion Blaenorol)* a'r ffurflenni enwebu *Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth* a *Phartner Dibynnol ar gyfer Pensiwn Goroeswr.*<br><br>Cadarnhawyd bod safon dda o ran cadw cofnodion. Fodd bynnag, canfuwyd ambell amrywiad rhwng y data pensiwn diffoddwyr tân sydd yn system Workforce a'r data sydd yn ITrent. Mae'r amrywiadau rhwng cofnodion diffoddwyr tân Workforce ac ITrent (cyfeiriadau, dyddiadau geni a rhif Yswiriant Gwladol) wedi cael eu darparu i Adnoddau Dynol a'r Gyflogres yng Nghonwy, a dylid gwneud ymholiadau a diwygio'r Systemau gyda data cyfoes a chywir. Rhaid i gyflogres Conwy sicrhau bod Pensiynau Dyfed yn cael gwybod beth yw'r cofnodion data cywir.<br><br>Caiff cyfraniadau eu didynnu'n gywir o gyflogau diffoddwyr tân gan ddefnyddio'r gyfradd gywir ar gyfer y cyfraniad i'w didynnu o'r enillion pensiynadwy; mae diffoddwyr tân yn cael eu cofrestru yn y cynllun cywir, ac eithrio un Rheolwr Gwylfa RDS, sydd wedi cofrestru yn FPS 2007 ar hyn o bryd ac sydd heb gael ei amddiffyn ac a ddylai fod wedi cael ei drosglwyddo i FPS 2015. Cadarnhawyd bod y diffoddwyr tân sydd â'u hamddiffyniad gohiriedig wedi dod i ben yn 2015/16 wedi cael eu trosglwyddo'n gywir i FPS 2015. Fodd bynnag, i wella'r system, ystyrir y dylid mewnbynnu'r dyddiadau diwedd gohiriedig yr amddiffyniad trosiannol yn iTrent (Manylion Pensiwn wedi'i Gydgrynhoi) er mwyn sicrhau bod pob trosglwyddiad i FPS 2015 yn cael ei wneud yn amserol. | | | | | | | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cydnabuwyd bod yr adroddiadau pensiwn diwedd blwyddyn a roddwyd gan Gyflogres Conwy i Bensiynau Dyfed yn Ebrill 2015 yn anghyflawn ac wedi hepgor 102 o ddiffoddwyr tân amser cyflawn a 47 o ddiffoddwyr tân RDS. Fe wnaeth archwiliadau gwirio Pensiynau Dyfed ganfod y gwall a chafodd adroddiadau diwygiedig eu cyflwyno i Gonwy ar ddiwedd mis Mai. Mae'n bwysig fod Cyflogres Conwy'n cyflawni archwiliadau cadarn i wirio data yn yr adroddiadau diwedd blwyddyn, cyn cyflwyno'r data i Bensiynau Dyfed, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawni ac yn gywir. Dylai'r adroddiadau pensiwn diwedd blwyddyn a gyflwynir i Bensiynau Dyfed gael eu trosglwyddo gan ddefnyddio cyfrwng wedi'i amgryptio, megis Meddalwedd E-bost Sicr Egress.<br><br>Cadarnhawyd bod Pensiynau Dyfed yn cyflawni archwiliadau gwirio cadarn ar yr adroddiadau pensiwn diwedd blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir; ac mae rheolaeth y cynllun yn cael ei archwilio'n rheolaidd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Sir Gaerfyrddin. | | | | | | | |
| 3 | **Diogelwch Seiber** | Mae'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber a gynlluniwyd ar gyfer 2016/17 yn waith sydd ar y gweill; roedd Uwch Archwilydd Conwy (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfnod o absenoldeb salwch tymor hir rhwng Mawrth ac Ebrill 2017, ac mae hyn wedi arwain at oedi o ran cwblhau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber yn cael eu hadrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2017. | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** |
| | | | | | | | | **Uchel** | **0** |
| | | | | | | | | **Boddhaol** | **2** |
| | | | | | | | | **Cyfyng-edig** | **0** |
| | | | | | | | | **Dim Sicrwydd** | **0** |